AMGUEDDFA CYMRU

# Datganiad Llesiant 2030

amgueddfa.cymru
museum.wales

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu Amcanion Llesiant Amgueddfa Cymru, a sut y byddant yn ein galluogi i gyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).

Mae ein dogfennau cynllunio corfforaethol yn gwreiddio ein hamcanion llesiant a’n ffyrdd o weithio, ac yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ac yn adrodd ar eu cynnydd.



Rhif Elusen / Charity No. 525774

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Amgueddfa Cymru

Elusen yw Amgueddfa Cymru, ac mae ein teulu o saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru. Rydym yn croesawu pawb o bob cymuned am ddim, diolch i nawdd Llywodraeth Cymru.

Ond rydyn ni'n fwy na'n hadeiladau. Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol pwysig sy'n ymestyn tu hwnt i'w milltir sgwâr a'u platfformau digidol.



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf yn bodoli er mwyn sicrhau fod safon bywyd cenedlaethau'r dyfodol gystal os nad gwell na'r hyn sydd gennym ni. Mae'r ddeddf yn helpu i wneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y tymor hir; yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; yn defnyddio dull gweithredu integredig a chydweithredol; ac yn ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y byddwn yn cyfrannu at y nodau hyn, gan ymateb i'r dyletswyddau ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a enwir yn y Ddeddf.




## Nodau llesiant

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Pum ffordd o weithio

Mae’r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni weithio mewn ffordd gynaliadwy, trwy bum gwahanol ffordd:


Hirdymor


Integreiddio


Cynnwys Pobl


Cydweithio


Atal

## Ysbrydoli pobl, newid bywydau

Cafodd ein gweledigaeth, Ysbrydoli pobl, newid bywydau ei datblygu o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n cyd-fynd â'r amcanion llesiant a nodir yn y Ddeddf.

Roedd y Ddeddf hefyd yn help wrth i ni ddatblygu ein Strategaeth 2030. Mae ein strategaeth yn ymgorfforiad o'r Ddeddf, ac mae'n rhan greiddiol o'n holl waith.

Cafodd Strategaeth 2030 ei datblygu drwy ymgynghori a chysylltu â staff, gwirfoddolwyr, rhanddeiliaid, partneriaid a phobl ledled Cymru.

Mae'n cynnwys chwech ymrwymiad a naw hwylusydd rhwng nawr a 2030, fydd yn dangos sut y byddwn yn gweithio â phobl a chymunedau dros Gymru, drwy gasgliadau, rhaglenni cyhoeddus a phartneriaethau, i wneud y canlynol:



## Strategaeth 2030

Mae Strategaeth 2030 yn adeiladu ar ein gweledigaeth gyda chyfres o Ymrwymiadau, Hwyluswyr a Chanlyniadau lefel uchel. Gyda'i gilydd, rhain yw ein Hamcanion Llesiant. Maent yn dangos lle gallwn ni wneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau pobl Cymru dros y degawd i ddod.

Cafodd ein hamcanion llesiant eu datblygu i'n helpu i arddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Strategaeth 2030 a'r Ddeddf.

Maent wedi'u gwreiddio yn ein fframwaith cynllunio, trwy ein **Cynllun Busnes 5 mlynedd** a'n Cynlluniau Gweithredol Blynyddol. Maent yn cael eu mesur a'u hadrodd yn chwarterol ac yn flynyddol.

Caiff ein hamcanion llesiant eu cefnogi gan y 5 Ffordd o Weithio.



## Datblygu ein Hamcanion Llesiant

Yn 2020, cynhaliom yr ymgynghoriad mwyaf helaeth erioed er mwyn datblygu ein Strategaeth 2030. Roedd hyn yn rhan o'n hymrwymiad i drawsnewid yr Amgueddfa a gwreiddio nodau a ffyrdd o weithio'r Ddeddf.

Gofynnom i'n staff, gwirfoddolwyr, pobl a phartneriaid (rhai sy'n gweithio gyda ni, a'r rhai sydd ddim), beth ddylai ein cynlluniau ei gynnwys dros y ddeng mlynedd nesaf. Defnyddiom Dueddiadau'r Dyfodol a'r Ddeddf i ddatblygu ein Hymrwymiadau hirdymor ac i siapio datblygiad y Strategaeth.

Buom yn trafod y cynlluniau gyda phartneriaid, rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn rhai cadarn ac yn barod at y dyfodol. Gweithiom hefyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru i gynnal cyfres o sgyrsiau ymchwil dwys gyda chymunedau yr ydym yn methu yn gyson â'u cynnwys yn ein gwaith.

Cafodd y broses hon ei chyd-blethu â datblygiad ein hamcanion llesiant. Defnyddiom y model 3 gorwel i adnabod risgiau a chyfleoedd, ac i'n helpu i gynllunio'n well yn y tymor hir.

Wrth gynnwys pobl yn y broses o gynllunio cawsom gyfle i drafod a myfyrio, ac adeiladu Strategaeth sy'n diwallu anghenion pobl ledled Cymru.

## Ein Hamcanion Llesiant

Rydyn ni wedi mapio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Ymrwymiadau a Chanlyniadau). Gallwch weld hyn yn ein tabl isod. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi mwy o fanylion.

### Ein Haddewidion Strategol ar gyfer 2030 yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Our Strategic Commitments for 2030 mapped against the Well-being of Future Generations Goals

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynrychioli pawb**<br>Make sure that everyone is represented | 1 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| **Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes**<br>Inspire creativity and learning for life | 1 | | 3 | 4 | 5 | 6 | |
| **Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd**<br>Help protect and restore nature and our environment | 1 | 2 | 3 | | | | 7 |
| **Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli**<br>Support well-being through inspirational spaces and experiences | | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | |
| **Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol**<br>Discover and explore the museum digitally | 1 | | | 4 | 5 | 6 | 7 |
| **Creu cysylltiadau ar draws y byd**<br>Build global connections | 1 | | | | | 6 | 7 |
| **Hwyluswyr: gweithredoedd sydd yn cefnogi ein holl waith**<br>Enablers: actions that support our work | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

1. **Cymru lewyrchus** – A prosperous Wales
2. **Cymru gydnerth** – A resilient Wales
3. **Cymru iachach** – A healthier Wales
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal** – A more equal Wales
5. **Cymru o gymunedau cydlynus** – A Wales of more cohesive communities
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – A globally responsible Wales



Rydyn ni'n edrych ar yr amcanion llesiant mewn ffordd **integredig**, felly mae'r rhan fwyaf o'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni mwy nag un nod.





Rydyn ni'n **cydweithio** â nifer o bartneriaid ar gynlluniau, projectau, digwyddiadau ac arddangosfeydd ar draws Cymru. Mae gweithio fel hyn yn ein helpu i gyflawni amcanion ar y cyd, a deall y pwysau a'r heriau sy'n ein hwynebu ni a sefydliadau eraill, ac **atal** problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.



Rydyn ni'n **cynnwys** staff, gwirfoddolwyr, unigolion a chymunedau wrth ddatblygu a chyflwyno ein rhaglenni a'n cynlluniau, gan sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cynrychioli pobl ledled Cymru.



Mae ein hymrwymiadau a'n canlyniadau yn rhai **hirdymor**, ond mae ein cynllunio corfforaethol blynyddol a 5-mlynedd yn ein helpu i weithio tuag at hyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ein strwythurau llywodraethu sy'n ein galluogi i gynllunio a gwneud penderfyniadau effeithiol.

## I bawb

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i **Gynrychioli pawb**, ac ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru rydyn ni wedi datblygu Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad (2022-25).

Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:

- Mae'r Casgliad Cenedlaethol yn cynrychioli ac yn cael ei rannu â phawb o bobl Cymru.
- Rydyn ni'n chwarae rôl arweiniol wrth gefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru.
- Mae arddangosfeydd a digwyddiadau yn cael eu creu, eu defnyddio a'u mwynhau gan gymunedau ledled Cymru.
- Rydyn ni'n rhoi Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu ar waith sy'n cynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru.
- Mae defnyddwyr ac ymwelwyr yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau yng Nghymru.
- Mae ein staff, bwrdd, gwirfoddolwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru.
- Rydyn ni'n hyrwyddo strategaethau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gweithredu ar Anabledd, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynys

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Dysgu a chreu

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes.

Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:

- Fel sefydliad creadigol, rydyn ni'n meithrin a hwyluso creadigrwydd i bawb, a dathlu llwyddiannau creadigol Cymru.
- Gall pob ysgol yng Nghymru ddefnyddio Amgueddfa Cymru bob blwyddyn i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Mae oedolion a theuluoedd ar draws Cymru yn cael eu hysbrydoli i ddysgu gydag Amgueddfa Cymru.
- Mae pobl ifanc yn arwain a chynhyrchu rhaglenni a phrofiadau mentrus a chreadigol.
- Mae gwirfoddolwyr, lleoliadau a phrentisiaid yn cael eu cefnogi i wireddu eu llawn botensial.

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynys

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Gwarchod ein planed

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i Helpu i warchod ac adfer byd natur a'n hamgylchedd.

Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:

- Rydyn ni'n ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Rydyn ni'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng amgylcheddol ac yn ysgogi pobl i ymateb.
- Mae ymchwil yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a newid amgylcheddol yng Nghymru, neu o fudd i Gymru.

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Cefnogi lles

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i Gefnogi lles gyda llefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli.

- Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:
- Mae ein hamgueddfeydd yn ofodau sy'n cefnogi lles.
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach a hapusach fel rhan o raglen les i Gymru.
- Rydyn ni'n cefnogi mwynhad a lles y cyhoedd drwy brofiadau ein hymwelwyr.

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynys

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Creu profiadau digidol

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i Ddarganfod yr Amgueddfa'n ddigidol.

- Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:
- Datblygu gwasanaethau ac isadeiledd digidol i gynyddu a gwella cyrhaeddiad ac ymgysylltiad i sicrhau eu bod yn rhan hanfodol o greadigrwydd a phrofiad ymwelwyr.
- Mae ein harlwy digidol yn ategu ymweliadau â safleoedd yr Amgueddfa, gan greu profiadau cofiadwy.
- Gall pawb greu eu cynnwys, eu profiadau a'u cynnyrch eu hunain drwy ymgysylltu ar-lein

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynys

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Ledled y byd

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Amcanion Llesiant i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein hymrwymiad i Greu cysylltiadau byd-eang.

- Byddwn yn gweithio i sicrhau'r canlynol:
- Bydd Amgueddfa Cymru yn cael ei chydnabod fel amgueddfa o bwys byd-eang.
- Mae partneriaethau byd-eang yn cael eu datblygu gyda sefydliadau sy'n rhannu ein hymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol, ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ddysg ac arferion traddodiadol a modern.
- Cefnogi twf twristiaeth o'r DU a thu hwnt yng Nghymru.

Mae'r rhain yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Hwyluswyr Strategol

Rydyn ni hefyd wedi datblygu 9 Hwylusydd Strategol i'n helpu i gyflawni ein Hymrwymiadau ac i gefnogi'r holl Amcanion Llesiant:

- Mae ein llywodraethiant ariannol a'n rheolaeth gref yn sicrhau sefydlogrwydd
- Mae cynhyrchu rhagor o incwm yn ein cynorthwyo i roi Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru ar waith.
- Mae rhaglen ymchwil a gwerthuso gynhwysfawr yn llywio a datblygu pob agwedd o'n gwaith.
- Rydyn ni'n cefnogi a datblygu ein pobl, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, gan sicrhau ymddiriedaeth, parch a chynhwysiant.
- Rydyn ni'n sicrhau bod pobl Cymru yn rhan o'n penderfyniadau.
- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd o'n gwaith.
- Bydd pawb yng Nghymru yn adnabod brand Amgueddfa Cymru ac yn ymddiried ynddo.
- Mae ein hadeiladau a'n cyfleusterau yn addas i'r pwrpas.
- Mae ein hamgueddfeydd ac arferion gweithio'n ddiogel, ac yn cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch.

Cymru lewyrchus

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru gydnerth

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Cyflawni

Bydd cyflawni ein Hymrwymiadau, Hwyluswyr a'n Hamcanion Llesiant yn cael ei wreiddio drwy ein prosesau llywodraethu arferol trwy gyfrwng ein Fframwaith Cynllunio, a thrwy ein Cynlluniau Gweithredol blynyddol.

Caiff y rhain eu monitro yn erbyn cerrig milltir yn ystod y flwyddyn gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru, a'u hadrodd yn chwarterol ac yn flynyddol, gan ddangos sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y Nodau Llesiant a'r ffyrdd o weithio.

## Rhagor o wybodaeth:

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU

Strategaeth 2030 | Museum Wales (amgueddfa.cymru)